



11.11.20

Annwyl Rieni / Warcheidwyr

Yn gyntaf, diolch yn fawr am eich holl gefnogaeth a'ch cydweithrediad wrth inni symud ymlaen yn ystod Tymor yr Hydref. Dyma ychydig o nodiadau atgoffa yn ystod yr hanner tymor hwn, ynghyd â'n trefniadau Nadolig eleni.

Ymarfer Corff / Gwisg Ysgol

Gall ddisgyblion fynychu'r ysgol yn gwisgo'u gwisg Addysg Gorfforol ar ddiwrnodau Addysg Gorfforol. Gwisg Addysg Gorfforol yr ysgol yw esgidiau addas, trowsus tracwisg tywyll a chrys gwyn. Gofynnwn yn garedig i chi gadw at y lliwiau yma a **nid** caniatáu gwisgoedd llachar, lliwgar.

Mae o leiaf ddwy ffenestr ar agor ym mhob ystafell ddosbarth bob dydd er mwyn caniatáu awyru naturiol cyson. Gwnewch yn siŵr bod eich plentyn yn dod â siwmpwr a chôt i'r ysgol.

Gweithdrefnau Dechrau a Diwedd Dydd

Diolch yn fawr am barhau i ddilyn ein system a'n gweithdrefnau unffordd, sy'n cynnwys mynd i mewn ac allan o'r bae bysiau trwy wahanol gatiâu. Nodyn i'ch atgoffa y dylai rhieni / gofawr hebrwng eu plant i gatiâu'r ysgol. Mae'r giât allanol yn agor am 08.50 ac mae'r ysgol yn cychwyn am 09.00. Mae hwyrni yn cael ei fonitro ar lefel ysgol ac awdurdod. Ni chaniateir gyrru ar / parcio ar safle ysgol rhwng 08.15 a 09.15, ac eithrio pan fydd yr ysgol wedi cytuno ar drefniant penodol gyda rhieni / gofawr am resymau mynediad.

Gofynnwn i chi'n garedig gadw pellter cymdeithasol wrth adael y plant yn y bore ac ar yr iard ar ddiwedd y dydd. Byddai hefyd yn ein helpu yn fawr pe gallech geisio cyfyngu'r oedolion ar y safle ar gyfer gollwng a chasglu i un rhiant / gofawr, a fydd yn helpu gyda phellter cymdeithasol.

A wnewch chi sicrhau **nid** ydy'ch plentyn(plant) yn defnyddio'r offer chwarae allanol ar ddiwedd y dydd sydd yn risg iechyd a diogelwch.

Presenoldeb

A wnewch chi gysylltu gyda'r ysgol ar ddiwrnod cyntaf unrhyw absenoldeb, gan nodi'r rheswm penodol am yr absenoldeb.

Ni ddylai dysgwyr fynychu ysgolion / lleoliadau o dan unrhyw amgylchiadau:

- teimlo'n sâl, a oes gennych unrhyw un o'r tri symptom COVID-19 a nodwyd (peswch parhaus newydd, neu dymheredd uchel neu gollu neu newid i'w synnwyr blas neu arogl) neu maent wedi profi'n positif i COVID-19 yn y 7 diwrnod diwethaf
- yn byw ar aelwyd neu'n rhan o aelwyd estynedig gyda rhywun sydd â symptomau COVID-19 neu sydd wedi profi'n positif am COVID-19 yn y 14 diwrnod diwethaf.

Bydd unrhyw plentyn sydd yn dangos symptomau yn cael eu ynysu'r syth a bydd yr ysgol yn cysylltu gyda rhieni / gofawr i gasglu'r plentyn. Helpwch cadw ein ysgol yn ddiogel gan ddilyn y canllawiau yma.

Cyfnodau Ynysu / Dysgu Cyfunol

Bydd unrhyw gyfnod ynysu sy'n ofynnol yn cael ei asesu ar sail unigol a derbynnir cyngor gan awdurdodau ynghylch pwy ac am ba hyd. Yn ystod unrhyw gyfnod o ynysu bydd ein prosesau Dysgu Cyfunol yn cael eu dilyn. Efallai bydd rhaid addasu hyn ychydig yn unol â phob achos penodol ond bydd pob disgybl yn derbyn gwahoddiad i ymuno â sesiwn byw ar ddiwrnod cyntaf y cyfnod ynysu pan ddarperir gwybodaeth bellach a gweithdrefnau sefydliadol. Mae'r sesiwn hon yn wirfoddol ac os na allwch ddod, bydd yr holl wybodaeth hefyd ar gael ar dudalen dosbarth Hwb eich plentyn.

Gweithdrefnau Nadolig

Ym Mro Ogwr rydym yn teimlo bod y cyfnod cyn y Nadolig yn rhan bwysig o fywyd yr ysgol i'n disgyblion ac yn gyfraniad hanfodol i'w hapusrwydd a'u lles er mwyn gallu rhannu a chymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'u ffrindiau. Felly, rydym ni fel ysgol wedi rhoi gweithdrefnau ar waith i sicrhau ein bod yn gallu darparu gweithgareddau y Nadolig i'n disgyblion. Penderfyniad Bro Ogwr yw hwn, gan fod yr awdurdod wedi rhoi disgrisiwn i ysgolion am gynnig digwyddiadau Nadolig eleni. Byddwn yn trefnu'r canlynol:

Cyngherddau Nadolig: Eleni, bydd pob blwyddyn yn cael eu recordio yn eu grwpiau cyswllt i ddymuno Nadolig Llawen i chi i gyd. Bydd y recordiadau hyn yn cael eu darparu'n ddigidol trwy gyfrifon dysgwyr Hwb yn rhad ac am ddim i rieni / gofalwyr eu mwynhau. Ni fydd angen gwisgoedd, bydd disgyblion yn gwisgo'u gwisg ysgol. Dim ond disgyblion â chaniatâd fydd yn cael eu ffilmio. Os nad ydych wedi cwblhau'r ffurflen ganiatâd eto, dilynwch y ddolen i'w chwblhau: <https://forms.gle/6qdchTafWDpVsmTY7>

Cinio Nadolig: Anfonir dolen atoch yn agosach at y dyddiad i archebu cinio Nadolig i'ch plentyn / plant. Mae'r dyddiadau fel a ganlyn:

Cyfnod Sylfaen (Meithrin i Flwyddyn 2) **Dydd Mercher 9 Rhagfyr**

Cyfnod Allweddol 2 (Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6) **Dydd Iau 10 Rhagfyr**

Siwmpwr Nadolig / Diwrnod Dillad Eich Hun: **Dydd Gwener 11 Rhagfyr** Croesawir unrhyw gyfraniad tuag at yr elusen.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth barhaus

Cofion gorau

Sharon Jayne

Pennaeth